# JONES, DAVID (1770 - 1831), gweinidog gyda'r Annibynwyr, emynydd a cherddor



**Enw:** David Jones
**Dyddiad geni:** 1770
**Dyddiad marw:** 1831
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr, emynydd a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth; Barddoniaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Coed-y-ddôl, Llanuwchllyn, Sir Feirionnydd, Hydref 1770. Gwneuthurwr llestri coed ydoedd ei alwedigaeth. Yn ddyn ieuanc aeth am gwrs o addysg i'r athrofa yn Wrecsam o dan yr athro Jenkin Lewis. Yn 1801 aeth i Dreffynnon i ofalu am yr eglwys Annibynnol yno. Cyhoeddodd gasgliad o emynau yn 1821, a chafwyd ail argraffiad yr un flwyddyn yn cynnwys *Egwyddorion neu Dôn-raddau Peroriaeth a amcanwyd yn bennaf er anogaeth a chynorthwy i bobl ieuanc* (3ydd arg. yn 1826). Aeth i Fanceinion yn 1831 i gasglu at gynorthwyo eglwysi gweiniaid. Bu farw 25 Awst 1831, yn Lerpwl, trwy ddamwain, a chladdwyd ef yn Nhreffynnon.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iv, 222

W. A. Griffiths, *Hanes Emynwyr Cymru* (Caernarfon 1907)

Charles Ashton, *Llyfryddiaeth Gymreig o 1801 i 1810* (1908)

[ *Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96) (ail arg.), vi, 416 D

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 99, 114]


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732845


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu